# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 16 Ionawr 2013**

Amser:
**08:45**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Price**
Clerc y Pwyllgor
02920898409
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9.00 - 9.05)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Buddsoddi i Arbed - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid (9.00 - 9.45)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ; Jeff Andrews, Cynghorydd Arbennig; a Richard Clarke, Pennaeth Buddsoddi i Arbed.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Nodyn ar ddosbarthiad daearyddol ceisiadau Buddsoddi i Arbed;
- Nodyn yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod prosiectau yn glir o ran y meini prawf y mae angen iddynt eu dilyn wrth wneud cais am gyllid Buddsoddi i Arbed;
- Rhagor o fanylion am aelodaeth panel cyfnod 2, gan gynnwys manylion am lefelau'r arbenigedd ar y paneli hynny, ac am y camau a gymerir i sicrhau bod y broses yn codi llai o ofn ar y rhai sy'n ymgeisio;
- Eglurhad o sut bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gred sydd ar led bod

tebygrwydd rhwng y meini prawf asesu ar gyfer y Gronfa Buddsoddi i Arbed a'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol;

- Nodyn ar y gwahaniaeth rhwng y gwaith gwerthuso a wnaed gan Brifysgol Abertawe ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd a Phort Talbot mewn perthynas â'r prosiect Darbodus.

## 3. Buddsoddi i Arbed - Adborth ynghylch ymweliadau aelodau'r Pwyllgor (9.45 - 10.10)

3.1 Cafodd y Pwyllgor adborth gan aelodau'r Pwyllgor sydd wedi cael cyllid Buddsoddi i Arbed.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi adroddiadau pob ymweliad.

## 4. Papurau i'w nodi

4.Nododd y Pwyllgor:

- bapur ar oblygiadau ariannol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
- papur ar oblygiadau ariannol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
- cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5 Rhagfyr 2012.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 6. Trafod yr ymatebion Gweinidogol i adroddiadau'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 (10.10 - 10.40)

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion gan Weinidogion i adroddiadau'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14.

## 7. Trafod y dystiolaeth ynghylch Buddsoddi i Arbed (10.40 - 11.00)

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd ar ei ymchwiliad i Buddsoddi i Arbed a chytunodd i ystyried adroddiad drafft mewn cyfarfod arall.

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.